

Cymhellion bob tro

“...gadewch inni wneud da i bawb, ac yn enwedig i’r rhai sydd o deulu’r ffydd.” (adn. 10)

Beth am ddarlenn Galatiaid 6:1–10 ac yna myfyrio

Rydyn ni am barhau i fyfyrio ar esiampl ein Harglwydd, yr un aeth “oddi amgylch gan wneud daioni ac iachau pawb oedd dan ormes y diafol, am fod Duw gydag ef” (Actau 10:38). Yn ein darlenniad heddiw mae’r apostol Paul yn ein hatgoffa ein bod i “wneud da i bawb, ac yn enwedig i’r rhai sydd o deulu’r ffydd.” Wrth inni ddilyn esiampl ein Harglwydd a gwneud daioni i eraill, mae’n rhaid inni fod yn ofalus ein bod yn gwneud hynny yn ysbryd Iesu. Cymhellion ydy popeth. Nid gwneud argraff ar bobl gyda’i garedigrwydd oedd cymhelliad ein Harglwydd, ond yn hytrach oherwydd mai hyn oedd y peth cywir i’w wneud. Dyma eiriau treiddgar: “Ac felly, pechod yw i rywun beidio â gwneud y daioni y mae’n gwybod y dylai ei wneud”. (Iago 4: 17) Fel y dywedwyd un tro: “Mae gwneud y peth cywir bob amser yn gywir i’w wneud.”

Rai dyddiau’n ôl, mi soniwyd bod mynd o amgylch yn gwneud daioni yn gallu ennyn sarhad, gan y gall y sawl sy’n gwneud daioni gael ei ystyried yn hunangyfiawn. Eto, dydy gwneud daioni ddim o reidrwydd yn golygu ein bod yn bobl sy’n gwneud daioni er mwyn ateb rhyw angen ynom ni ein hunain. Mae Tony Campolo, y pregethwr o America, yn credu y dylen ni, gymaint ag sy’n bosibl, fod yn anhysbys wrth wneud daioni. Er enghraifft, mae’n dweud bod y rhai sy’n mynd i gartrefi anghenus i ganu carolau ac i roi rhodd o becyn bwyd yn mynd ati o chwith. Dylen nhw fod yn gadael y pecyn wrth y drws gyda nodyn yn dweud: “Mae Duw’n eich caru ac yn anfon hwn.” Mae ganddo bwynt.

Roedd gweithredoedd da ein Harglwydd yn llifo o galon oedd yn gorlifo â chydymdeimlad a dyhead i unioni byd claf a thoredig. Dyna esiampl i ni. Dyna etifeddiaeth.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Math. 6:1–18; 1 Cor. 13:1–3; Titus 2:11–14; Iago 2:12–26

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth ddylai fod yn gyffredin am roi, gweddïo ac ymprydio yn ôl Iesu?
2. Sut mae Iago yn cysylltu ffydd â gweithredoedd?

Gweddï

O Dad, dangos i mi sut i wneud daioni heb fod yn hunangyfiawn. Boed i’m cymhelliad wrth wneud daioni fod er clod a gogoniant i’th enw. Pan fydda i’n baglu yn hyn o beth, helpa fi i faglu i lawr ar fy ngliniau, oherwydd mi wela i fod gennyf lawer i’w ddysgu. Yn enw Iesu. Amen.